

## Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Mrs Ann Lightfoot o Bentrecelyn, merch amhrisiadwy Mrs Maria Jones, a chwaer arbennig Dewi a Huw (Groes). Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod dros y teulu oll mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch a'u hiraeth, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu yn eu profedigaeth.

Yn yr un modd, fe gydymdeimlwn â theulu'r Parch. Goronwy Prys Owen yn dilyn ei farwolaeth ddiwedd mis Ionawr. Bu'n dod yn gyson i Fro Aled tra roedd ei iechyd yn caniatáu - diolchwn amdano ac am iddo bregethu'r Gair yn ffyddlon inni ar hyd y blynyddoedd. Cyflwynwn y teulu oll i ofal a thangnefedd yr Arglwydd.

Cofiw'n yn arbennig hefyd am y rhai ohonoch sydd heb fod yn dda eich iechyd. Mae sawl un ohonoch wedi bod, neu yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd, a threuliodd Emlyn Davies (Llansannan) noson yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan i chi a chyflwynwn bob un ohonoch i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drosoch a thros eich anwyliaid yr un modd.

Llongyfarchiadau calonnog i Lois Gwen Jones (Llanefydd) a Tom ar enedigaeth mab, Jacob Owen. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach a chyflwynwn hwy i'w ofal.

### Apêl wedi'r daeargrynfeydd yn Nhwrci a Syria

Mae miloedd lawer wedi colli eu bywydau ac eraill wedi eu hanafu yn ddifrifol yn dilyn y daeargrynfeydd yn ne Twrci a gogledd-orllewin Syria ddechrau'r wythnos. Mae'r sefyllfa'n dorcalonnus a phobl wedi eu gadael heb loches, a hynny mewn amodau gaeafol a rhewllyd. Yn ogystal â bod angen triniaethau meddygol, mae gwir angen arnyn nhw am lochesau brys, blancedi, dillad cynnes, bwyd a dŵr glân.

Mae DEC (Disaster Emergency Committee) eisoes yn darparu cymorth brys yno ac rydym yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu'n ariannol trwy'r Ofalaeth i wneud hynny ar-lein (anfonwch neges i Mair i gael y manylion banc) neu gallwch anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gydag 'Twrci/Syria' wedi ei ysgrifennu ar y cefn **erbyn diwedd Chwefror**, os gwelwch yn dda. Ein bwriad yw trosglwyddo'r arian i Apêl DEC er mwyn iddynt gael darparu cymorth uniongyrchol i'r rhai mewn angen.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

**Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (22ain), os gwelwch yn dda.**

# Llais Bro Aled



Dydd Sul, 12 Chwefror 2023

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Ddydd Llun y daeth y newyddion cyntaf am y daeargryn dinistriol yn Nhwrci. Ac wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen clywsom a gwelsom fwy a mwy am y sefyllfa dorcalonnus gyda niferoedd y marwolaethau yn cynyddu bob dydd. Sut allwn ni ymateb yw'r hyn sydd ar feddwl nifer ohonom. Beth am i ni ymroi i weddio dros y rhai yng nghanol y dinistr, boed hwy wedi colli anwyliaid, wedi'u hanafu neu mewn sioc o golli cartref neu waith? Cofiw'n hefyd am bawb fydd yn gweithio'n ddiflino i geisio bod o gymorth i eraill yng nghanol y chwalfa. Ac yn ymarferol gallwn hefyd gyfrannu tuag at apêl DEC sy'n cael ei chrybwyll mewn man arall o'r rhifyn hwn o Llais Bro Aled.

Yn naturiol bydd digwyddiadau o'r fath yn codi cwestiynau digon anodd ynglŷn â dioddefaint. Ac nid ni yw'r cyntaf i feddwl am faterion o'r fath. O droi at y Testament Newydd, gwelwn fod Iesu wedi ateb cwestiwn a ofynnwyd iddo yn sgil trychineb. Os edrychwch ar Luc 13:1-5 mae Iesu'n ymateb i gyflafan lle cafodd Iddewon yng Ngalailea eu lladd gan luoedd Rhufeinig Pilat. Ac wrth iddo ateb y cwestiwn, mae'n cyfeirio at drasiedi arall fyddai'n gyfarwydd i bobl o'i gwmpas ar y pryd, pan ddisgynnodd tŵr Siloam a lladd deunaw o bobl yn Jerwsalem.

Neges fawr Iesu yn Luc 13 yw bod angen i bawb edifarhau: syrthio ar ein bai, cefnu ar ein ffyrdd pechadurus, a throï at Dduw mewn ffydd. Efallai eich bod yn meddwl fod hynny'n rhyfedd yng nghyd-destun sgwrs am drychinebau, ond mae Iesu am i ni bwysu a mesur ein cyflwr ein hunain. Yn hytrach na chynnig atebion ynglŷn â dioddefaint, neu bwy yw'r pechaduriaid mwyaf, mae Iesu'n ein cymell i sylweddoli mai dinistr tragwyddol fydd diwedd pawb ohonom oni bai ein bod yn ymateb i alwad yr Efengyl mewn ffydd ac edifeirwch. Dyma neges sydd i fod i'n deffro, ond sydd hefyd yn dangos adnabyddiaeth Iesu ohonom. Mor hawdd yw i ni guddio tu ôl i beth sy'n digwydd i bobl eraill heb ystyried beth sy'n digwydd yn ein bywydau ein hunain.

Rydym i gyd yn byw mewn byd syrthiedig lle na allwn osgoi effeithiau dyrps poen, drygioni a marwolaeth. Cwestiwn Iesu yw sut yr ydym ni'n ymateb i hynny? Newyddion godidog y Beibl yw bod Duw eisoes wedi ymateb i'n sefyllfa argyfyngus mewn cariad trwy anfon ei Fab atom i'n hachub.

'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.' (Ioan 3:16)

Rhodri

## Cyhoeddiadau'r Fro

### Dydd Sul, Chwefror 12<sup>fed</sup>

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac yng **Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan, a bydd Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac yng **Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Dewi Williams. Bydd Ysgol Sul yn Groes yn dilyn yr oedfa ac Ysgol Sul yn Henllan am 10:30.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac yn **Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Celfyn Williams.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

### Dydd Llun, Chwefror 13<sup>eg</sup>

- **Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan** am 7:30 yn y Ffestri. Croeso i bob aelod o'r eglwys.

### Dydd Mawrth, Chwefror 14<sup>eg</sup>

- **Cinio Jangl** yn Ffestri Llansannan am 12:00.

### Dydd Iau, Chwefror 16<sup>eg</sup>

- **Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn Ffestri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala.

### Dydd Sul, Chwefror 19<sup>eg</sup>

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac yn **Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris. (*Erbyn hyn, mae ychydig o le parcio y tu cefn i'r capel yn Llanfair.*) Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa Deuluol yn Llanefydd** am 9:30 ac **Oedfa Gymun yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6:00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd y Parch. Meirion Morris yn pregethu.

### Dydd Llun, Chwefror 20<sup>fed</sup>

- **Cymdeithas Llansannan** yn cyfarfod yn y Ffestri am 7:30 yr hwyr pryd y ceir noson yng nghwmni Arfon Wynne: "Y Dyddiau Cyn y Ffôn Symudol a'r We". Croeso i bawb.

### Dydd Mawrth, Chwefror 21<sup>ain</sup>

- **Cinio Jangl** yn Ffestri Llansannan am 12:00.

### Dydd Sul, Chwefror 26<sup>ain</sup>

- **Cynhelir Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Llansannan** am 9:30, yn **Llanfair** am 10:00, ac yng **Nghefn Meiriadog** am 10:30. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan, a bydd Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac yn **Groes** am 11:00 o dan arweiniad Celfyn Williams. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10:15.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac yn **Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

### Rhaglen Cymantuo Canu 2022-23

Os hoffech gael copi o'r Detholiad ar gyfer 2022-23 (Hen Nodiant a/neu Sol-ffa), rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul (neu i Mair) **erbyn dydd Sul, Chwefror 25<sup>ain</sup>**, os gwelwch yn dda. Pris: £2.00.

### Cyrsiau Coleg y Bala

- **CHWALFA CHWFROR: 20 - 21 Chwefror 2023.** Deuddydd i blant cynradd oed 8-11 i ddysgu am Iesu, yn llawn gemau gwirion, crefft, chwaraeon, canu ac ymlacio yn y 'gaming room'. Y gost yw £42 sy'n cynnwys yr holl weithgareddau, bwyd a'r llety.
- **CWRS IEUENCTID: 24 - 26 Chwefror 2023.** Penwythnos i bobl ifanc, blynyddoedd 7-10 yn llawn gemau newydd gwirion, bydd noson 'take away', crefft, amser i ymlacio yn y 'gaming room', amser i ddal fyny hefo ffrindiau hen a newydd, a bydd trip i 'Surf Snowdonia' yn Nolgarrog i'r 'Ninja Assault Course & Extreme Slides'. Trwy gydol y penwythnos fe fydd sesiynau byr i edrych ar y Beibl mewn ffordd hawdd i ddeall ac addas i'ch oedran. Bydd y penwythnos yn cychwyn am 6:00 ar y nos Wener ac yn gorffen am 11:30 ar y bore dydd Sul. Cost y cwrs yw £69 sy'n cynnwys pob dim.

Medrwcw archebu lle ar gyfer y cyrsiau uchod ar y wefan:

[www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg](http://www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg) neu trwy ffonio 01678 520565.

**(Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu, a bod Eglwys Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynychu.)**